**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bethan Jenkins AC
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

20 Mehefin 2017

Annwyl Bethan,

Ysgrifennaf atoch i ymateb i'ch llythyr dyddiedig 24 Mai 2017 ynghylch penodi Aelod newydd i gynrychioli Cymru ar Fwrdd y BBC. Yn eich llythyr, rydych yn gofyn i Weinidogion Cymru beidio rhoi cydsyniad nes bod gwrandawiad cyn penodi wedi ei gynnal gyda'ch Pwyllgor.

Nid yw'r cyfrifoldeb dros bolisi darlledu wedi ei ddatganoli i Gymru. Er bod yn rhaid cael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn y ceir penodi Aelod i gynrychioli Cymru ar y Bwrdd, nid Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r broses recriwtio a phenodi, er ein bod, wrth gwrs, yn cael mynegi barn ac yn cael ein cynrychioli ar y panel recriwtio. Fodd bynnag, yn y pen draw, Llywodraeth y DU sy'n pennu'r broses hon ac yn ei rheoli. Felly, nid yw o fewn fy mhwerau i gynnal gwrandawiad cyn penodi. Yn amlwg byddai angen i'r broses hefyd fod yn gyson ar gyfer pob aelod sy'n cynrychioli cenedl. Rwy'n gwybod bod Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn bwriadu trafod y broses o benodi Aelodau i gynrychioli'r cenhedloedd ar Fwrdd y BBC yn y dyfodol, a hynny gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gweinidogion cyfatebol yn Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Mater i chi yw penderfynu a ydych am gael trafodaeth debyg gyda Chadeiryddion y Pwyllgorau Seneddol neu Gynulliad perthnasol yn y DU, yr Alban, a Gogledd Iwerddon. Byddai angen i bob un ohonynt gytuno i weithredu yn yr un modd mewn perthynas â phenodi aelodau i gynrychioli eu cenhedloedd yn y dyfodol.

Mae'r broses recriwtio ar gyfer penodi Aelod o'r Bwrdd i gynrychioli Cymru yn mynd rhagddi ar hyn o bryd, a disgwylir i gyfweliadau gael eu cynnal ddiwedd mis Mehefin. Byddwn yn disgwyl i'r unigolyn a benodir o ganlyniad i'r broses hon sicrhau ei fod ar gael i ymddangos gerbron y Pwyllgor i ateb cwestiynau ar amser priodol, cyn gynted â phosibl ar ôl ei benodiad.

Yn gywir

**CARWYN JONES**

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Culture, Welsh Language and Communications Committee
CWLC(5)-20-17 PtN2

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.